

Tyfu i fyny yng Nghymru: Tystiolaeth o Astudiaeth Aml-Garfan Addysg WISERD

hefcw

Beth yw'r peth gorau a'r peth gwaethaf am dyfu i fyny yng Nghymru?

Mae pobl ifanc o'r farn mai'r peth gorau am fyw yng Nghymru yw'r golygfeydd, ac mai'r peth gwaethaf yw'r tywydd.

"Y ffaith bod pawb yn credu ein bod ni'n rhan o Loegr"

"Cael ein stereoteipio"

"Mae'n bwrw glaw o hyd"

Beth yw'r peth gorau am fyw yng Nghymru?



Y golygfeydd	24.4%
Gwerthoedd dinesig a gwleidyddiaeth	15.7%
Chwaraeon	9.7%
Yr iaith a diwylliant	8.1%
Y bobl a'r gymuned	5.2%
Hunaniaeth Gymreig	2.1%

Beth yw'r peth gwaethaf am fyw yng Nghymru?



Y tywydd	42%
Diffyg cyfleusterau	27%
Materion am yr iaith	16.7%
Bod ymhell o bob man	14%
Diffyg cyfleoedd	9%
Stereoteipio/parch	7.3%
Dim byd	6%
Gwleidyddiaeth Cymru	3.7%

Tyfu i fyny yng Nghymru: Tystiolaeth o Astudiaeth Aml-Garfan Addysg WISERD

hefcw

Dyfodol yng Nghymru?

Mae pobl ifanc yn ansicr a oes dyfodol ganddynt yng Nghymru.

Wrth iddynt fynd yn hŷn, maen nhw'n pryderu'n fwy ynghylch a fydd modd iddynt aros yng Nghymru i wneud y swydd y maen nhw'n dymuno ei gwneud.

"Rwy'n credu y bydd yn rhaid i mi adael Cymru i wneud y swydd rwy'n dymuno ei gwneud"

22.5% **30.1%** **33.3%**
Plant 12 oed Plant 15 oed Pobl ifanc 17 oed

"Rwy'n teimlo na fydd Cymru efallai yn gallu cynnig swydd addas ar ôl addysg bellach"

"Nid yw hi wedi datblygu cymaint â gwledydd eraill yn Ewrop"

"Mae'n rhywle nad yw'n arwain i unman"

"Nid ydych yn cael llawer o gyfleoedd yng Nghymru"



Tyfu i fyny yng Nghymru: Tystiolaeth o Astudiaeth Aml-Garfan Addysg WISERD

hefcw

Dealltwriaeth a diddordeb pobl ifanc mewn gwleidyddiaeth

Mae gan bobl ifanc mwy o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth y DU a'r byd na gwleidyddiaeth leol a gwleidyddiaeth Cymru.




Mae gan bobl ifanc **ddealltwriaeth well** o wleidyddiaeth y **DU** na gwleidyddiaeth **Cymru**.



Mae pobl ifanc yn dibynnu ar y **cyfryngau cyndeithasol a theulu neu ffrindiau** i gael gwybodaeth am **faterion cyfoes**.

Canran yn nodi'r diddordeb mewn gwahanol fathau o wleidyddiaeth



Mae pobl ifanc eisiau **mwy o gyfleoedd** i gymryd rhan mewn **gwleidyddiaeth**.



Pan ofynnwyd a ddylid **gostwng yr oedran pleidleisio i 16**, dywedodd **66.3% "y dylid"** a dywedodd **22.7% "na ddylid."**

Tyfu i fyny yng Nghymru: Tystiolaeth o Astudiaeth Aml-Garfan Addysg WISERD

hefcw

A yw cynghorau ysgol yn gwneud gwahaniaeth?

Nid yw cael cynghorau ysgol gorfodol yng Nghymru wedi arwain at lefelau uchel o ran ymgysylltu â disgyblion na chred bod cynghorau'n gwneud gwahaniaeth.

"Byddwn i'n cael cyngor ysgol lle mae'r ysgol wir yn gwrandao ar yr hyn sydd ganddynt ei ddweud, a lle rydym yn cael ein cymryd o ddifrif o ran ein hawgrymiadau"



Mae'r prif broblemau sy'n cael eu codi mewn cynghorau'n gysylltiedig â **gwisg ysgol a chyfleusterau**.



Mae pobl ifanc eisiau'r **cyfle i ddweud eu dweud yn fwy o ran dewis pynciau**, fodd bynnag, efallai na fyddant yn codi hyn yn y cynghorau oherwydd nad ydynt o'r farn bod eu cylch gorchwyl yn cynnwys y cwricwlwm.



16% yn unig oedd o'r farn bod y cyngor ysgol yn **gwneud gwahaniaeth** i'r hyn sy'n digwydd mewn ysgolion.

Tyfu i fyny yng Nghymru: Tystiolaeth o Astudiaeth Aml-Garfan Addysg WISERD

hefcw

Safbwyntiau pobl ifanc am yr iaith Gymraeg

*Mae gan bobl ifanc safbwyntiau
cymysg am yr iaith Gymraeg.*

Roedd canran cyfartal o bobl ifanc
(10%) yn nodi'r iaith Gymraeg fel
rhywbeth cadarnhaol a negyddol
am fyw yng Nghymru.

Beth yw'r peth gorau am fyw yng Nghymru?



*"Rydych yn cael cyfle enfawr
i ddod yn ddwyieithog"*

"Cael ein hiaith ein hunain"

Beth yw'r peth gwaethaf am fyw yng Nghymru?

"Cael eich gorfodi i ddysgu'r Gymraeg"

*"Cael eich gorfodi i siarad Saesneg
e.e. mewn bwyty, siop"*



Tyfu i fyny yng Nghymru: Tystiolaeth o Astudiaeth Aml-Garfan Addysg WISERD

hefcw

Anhapusrwydd ymysg merched

Mae merched 15 oed yn llai hapus o lawer amdany'n nhw eu hunain na bechgyn 15 oed.

Roedd merched yn fwy tebygol o lawer o fod wedi teimlo'n ddiflas neu'n anhapus yn ystod y pythefnos blaenorol, i fod wedi llefain cryn dipyn yn ystod y pythefnos blaenorol, i fod yn teimlo'n anhapus am y ffordd maen nhw'n edrych ac yn anhapus gyda'u 'bywyd yn ei gyfanrwydd.'

	Bechgyn		Merched	
<i>"Rwy'n teimlo'n dda am fy hun"</i>	75.2% ✓	7.6% ✗	46.7% ✓	21% ✗
<i>"Rwyf wedi teimlo'n ddiflas neu'n anhapus yn ystod y pythefnos diwethaf"</i>	28.4% ✓	56.1% ✗	47.9% ✓	26.3% ✗
<i>"Rwyf wedi llefain cryn dipyn"</i>	7.8% ✓	82.5% ✗	26.3% ✓	53.9% ✗
<i>Y ffordd rydych chi'n edrych</i>	59.5% 😊	7.2% 😞	28.7% 😊	28.1% 😞
<i>Eich bywyd yn ei gyfanrwydd</i>	79.5% 😊	4.0% 😞	55.6% 😊	10.7% 😞



Tyfu i fyny yng Nghymru: Tystiolaeth o Astudiaeth Aml-Garfan Addysg WISERD


hefcw

Pa bynciau y mae disgyblion yn eu hoffi fwyaf?

Gwyddoniaeth yw'r pwnc craidd mwyaf poblogaidd a Mathemateg yw'r un lleiaf poblogaidd.

O'r pedwar pwnc craidd a astudir yn yr ysgol uwchradd, mae 45% o blant 13 oed yn 'hoff iawn' o Wyddoniaeth. Fodd bynnag, er nad yw 25% yn hoffi Mathemateg 'o gwbl,' mae 36% yn 'hoff iawn' ohono o hyd. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng y rhywiau i ryw raddau. Roedd bechgyn yn fwy tebygol o hoffi Mathemateg, ac roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o beidio â'i hoffi o gwbl.

Pynciau craidd y mae disgyblion Blwyddyn 8 'yn hoff iawn' ohonynt neu 'ddim yn eu hoffi o gwbl'



Mynd i'r ysgol heb gwsg?

*Dyweddod traean o bobl
ifanc eu bod "bron bob
amser" yn mynd i'r ysgol yn
teimlo'n flinedig.*



Mae **25%** o ddisgyblion
yn cael **llai nag
wyth awr o gwsg.**



Mae'r rhan fwyaf o blant **12 i 13 oed**
yn mynd i'r gwely tua **10pm**, ac mae
plant **13 i 14 oed** yn mynd i'r gwely
bron awr yn hwyrach am **11pm**.



Nododd **28%** o blant **14 i 15 oed** eu
bod yn mynd i'r gwely o gwmpas
hanner nos neu'n hwyrach na hynny.



Mae **dros drean** o bobl ifanc yn dweud
eu bod yn **deffro yn ystod y nos** i
ddarllen neu **anfon negeseuon**.

Tyfu i fyny yng Nghymru: Tystiolaeth o Astudiaeth Aml-Garfan Addysg WISERD

hefcw

Cael eich gwahardd o'r ystafell ddosbarth

Gofynnwyd i dros 40% o ddisgyblion i adael yr ystafell ddosbarth neu i fynd adref yn gynnar gan un o'u hathrawon.

Roedd 32% o bobl ifanc o'r farn ei fod yn deg eu bod wedi cael eu gofyn i adael, ond roedd 36% yn anghytuno.

Ar y cyfan roedd pobl ifanc yn cefnogi'r polisi o dynnu myfyrwyr aflonyddgar o'r ystafell ddosbarth, er nad oeddent yn cefnogi gwahardd myfyrwyr o'r ysgol, ac roedd bron hanner o'r farn bod angen rhywun arnynt i siarad ag ef am eu problemau.

Rhesymau am waharddiad

"Am chwarae o gwmpas"

"Oherwydd roeddwn yn hwyr"

"Roeddwn i'n siarad o hyd a rhegais yn y diwedd"

"Oherwydd mae'r athrawon yn fy nghasáu"

"Dadlau dros fy hawliau"

"Cnoi gwm"